30 Gorffennaf 2025

Annwyl

**ATISN 24892**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 03 Gorffennaf 2024. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"

1. Copi o bob adroddiad gan y Comisiynydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'u derbyn o dan adran 118 Mesur y Gymraeg - yn ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith.

2. Copi o bob adroddiad blynyddol gan y Comisiynydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'u derbyn o dan adran 119 Mesur y Gymraeg - gofyniad i gynnwys yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd a lunnir o dan Ran 2 y Mesur adroddiad penodol yn ymwneud â gweithrediad a digonolrwydd darpariaethau'r Mesur mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith.

3. Os nad oedd yr adroddiad gyhoeddwyd gan y Comisiynydd o gwmpas Ionawr 2014 yn dilyn adroddiadau cyhoeddus fod fferyllfa Morrisons ym Mangor wedi gwrthod gweinyddu presgripsiwn oedd wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg yn adroddiad a ddaeth o fewn cwmpas adran 118 y Mesur (ac wedi'i ddal felly gan gais 1 uchod), copi o'r adroddiad hwnnw.

4. Unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei dal ynghylch sut y mae'r Comisiynydd wedi gweithredu adrannau 8 a 9 y Mesur (y gallu i ddechrau neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol neu i roi cymorth i bersonau mewn cysylltiad ag achosion o'r fath). Yn ddelfrydol, hoffwn gael tabl o'r holl achlysuron y mae'r pwerau hyn wedi'u harfer.

   Noder, o ran cyd-destun y cais, nad yw llawer o'r wybodaeth a geisir yma yn debygol o fod ar gael gan y Comisiynydd fel y dylai fod yn dilyn yr ymosodiad seibr ar sefydliad y Comisiynydd yn 2020, felly yr unig obaith o adfer dogfennau pwysig ynghylch datblygiad hawliau iaith a gweithrediad y Mesur ar gyfer y cofnod cyhoeddus yw ceisio'r wybodaeth gan sefydliadau eraill sy'n debyg o fod yn dal yr wybodaeth.

5. Yn olaf, copi o ymateb / gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag ymgynghoriad y Llywodraeth 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' (Ionawr 2014) Rhif: WG18848."

## Ein hymateb

**1. Copi o bob adroddiad gan y Comisiynydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'u derbyn o dan adran 118 Mesur y Gymraeg - yn ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith.**

Ar ôl chwilio drwy ein cofnodion, rwyf wedi canfod bod Llywodraeth Cymru'n cadw rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Mae'r wybodaeth yr ydym yn cadw hefyd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Darperir dolenni isod:

- Swinton Group Limited
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- 2 Sisters Food Group
- Leggett & Platt Automotive, Rhydaman
- Bupa Dental Care

**2. Copi o bob adroddiad blynyddol gan y Comisiynydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'u derbyn o dan adran 119 Mesur y Gymraeg - gofyniad i gynnwys yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd a lunnir o dan Ran 2 y Mesur adroddiad penodol yn ymwneud â gweithrediad a digonolrwydd darpariaethau'r Mesur mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith.**

Ar ôl chwilio drwy ein cofnodion, rwyf wedi canfod bod Llywodraeth Cymru'n cadw rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Mae'r wybodaeth yr ydym yn cadw hefyd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Comisiynydd y Gymraeg ac ar wefan Senedd Cymru. Darperir dolenni isod:

- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2023-24: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2022-23: Adroddiad Blynyddol 2022-23
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2021-22: Adroddiad Blynyddol CYG 2021-22
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2020-21: adroddiad-blynyddolcygcymraeg-2020-21.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2019-20: gen-ld13530-w.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2018-19: gen-ld12792-w.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2017-18: gen-ld11891-e.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2016-17: agr-ld11169-e.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2015-16: gen-ld10701-w.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2014-15: agr-ld10278-w.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14: gen-ld9929.pdf
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-13: gen-ld9487-e-english.pdf

**3. Os nad oedd yr adroddiad gyhoeddwyd gan y Comisiynydd o gwmpas Ionawr 2014 yn dilyn adroddiadau cyhoeddus fod fferyllfa Morrisons ym Mangor wedi gwrthod gweinyddu presgripsiwn oedd wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg yn adroddiad a ddaeth o fewn cwmpas adran 118 y Mesur (ac wedi'i ddal felly gan gais 1 uchod), copi o'r adroddiad hwnnw.**

Ar ôl chwilio drwy ein cofnodion, nid ydym wedi dod o hyd i'r adroddiad y gofynnir amdano. Fodd bynnag, wrth ddelio â'r cais hwn, rydym wedi dod o hyd i ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru, ac sy'n cyfeirio at yr achos dan sylw.

- Dogfen 1: Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd at Brif Weinidog Llywodraeth Cymru ar y pryd, dyddiedig 12 Chwefror 2014 (teitl: Yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ar bresgripsiwn yng Nghymru)

Rwyf wedi penderfynu fod rhywfaint o'r wybodaeth (enwau a theitl swyddi swyddogion) yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly wedi ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiad wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

**4. Unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei dal ynghylch sut y mae'r Comisiynydd wedi gweithredu adrannau 8 a 9 y Mesur (y gallu i ddechrau neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol neu i roi cymorth i bersonau mewn cysylltiad ag achosion o'r fath). Yn ddelfrydol, hoffwn gael tabl o'r holl achlysuron y mae'r pwerau hyn wedi'u harfer.**

Ar ôl chwilio drwy ein cofnodion, rwyf wedi canfod nad yw Llywodraeth Cymru'n cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Fodd bynnag, hoffwn eich cyfeirio chi at Fframwaith Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer achosion cyfreithiol sydd ar gael yn gyhoeddus ar ei gwefan: adolygiad-barnwrol-ac-achosion-cyfreithiol-eraill.pdf.

O ran achlysuron lle mae'r pwerau hyn wedi'u harfer, mae'r wybodaeth ganlynol ar gael yn gyhoeddus ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, ac o fewn adroddiadau blynyddol Comisiynydd y Gymraeg:

1. Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
   - Y FRENHINES AR GAIS COMISIYNYDD Y GYMRAEG -v- CYNILION A BUDDSODDIADAU CENEDLAETHOL
   - Adroddiad Blynyddol 2013–14 (tud 30): gen-ld9929.pdf

2. Driver v Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
   - Penderfyniad Gwreiddiol (Gorffennaf 2020): penderfyniad-gwreiddiol-driver-v-rhondda-bc-300720-fersiwn-saesneg.pdf
   - Penderfyniad (21 Rhagfyr 2020): Driver -v- Rhondda Cynon Taf County Borough Council
   - Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg (tud 23-24): adroddiad-blynyddolcygcymraeg-2020-21.pdf

**5. Yn olaf, copi o ymateb / gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag ymgynghoriad y Llywodraeth 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' (Ionawr 2014) Rhif: WG18848.**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' ar 6 Ionawr 2014. Ar yr un diwrnod cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Y Gwir Anrh. Carwyn Jones, ddatganiad ysgrifenedig oedd yn gosod y cyd-destun. Mae'r datganiad yn nodi:

*"Fel y gwyddoch, bydd Comisiynydd y Gymraeg nawr yn mynd ati nawr ddefnyddio'r safonau arfaethedig hyn yn sail i ymchwiliad safonau gyda'r awdurdodau lleol, y Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.*

*Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn adroddiad yr ymchwiliad safonau oddi wrth y Comisiynydd a fydd yn nodi prif ganfyddiadau'r ymchwiliad. Bydd y canfyddiadau hynny yn cyfrannu at y gwaith o lunio'r Rheoliadau a fydd yn pennu'r safonau eu hunain."*

Mae'r adroddiadau ymchwiliadau safonau yr ydym yn dal, ac sydd yn berthnasol i Ran 5 y cais hwn, hefyd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Darperir dolenni isod:

- Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru: adroddiad-ymchwiliadau-safonau-cynghorau-sir-yng-nghymru-cymraeg.pdf
- Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol:https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/nmtnz1uo/adroddiad-ymchwiliadau-safonau-awdurdodau-parciau-cenedlaethol-cymraeg.pdf
- Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Gweinidogion Cymru : adroddiad-ymchwiliadau-safonau-gwenidogion-cymru-cymraeg.pdf

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn asesu rhai dogfennau a gohebiaeth ac yn ystyried a ddylid atal neu atal rannau o'r dogfennau a'r gohebiaeth yna, o dan yr eithriad 35(1)(a) yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – gwybodaeth yn ymwneud â llunio polisi llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn Rhan 5 y cais yn ymwneud â llunio polisi llywodraeth.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ynghylch y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus. Oherwydd yr angen i ystyried, ar sail holl amgylchiadau'r achos, beth yw'r cydbwysedd o ran budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ymateb i Ran 5 eich cais o fewn 20 diwrnod gwaith. Rwy'n gobeithio anfon ateb atoch erbyn **28 Awst 2025**.

**Nodyn cyffredinol**

Nodaf bod eich cais yn gofyn am wybodaeth o 2014. Mae’n bosib bod peth gwybodaeth a gohebiaeth o’r cyfnod hwnnw wedi cael ei ddileu yn unol â pholisi cadw a dileu cofnodion Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae’r peth gwybodaeth o’r cyfnod hwnnw yn dal ar systemau Llywodraeth Cymru, a’r ohebiaeth amgaeedig yw’r unig ffeiliau perthnasol ychwanegol rydym wedi dod o hyd iddynt yng nghyswllt Rhan 1-4 o’ch cais nad ydynt ar gael yn gyhoeddus.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

## Esemptiadau/eithriadau

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i bawb, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam o gyhoeddi'r wybodaeth. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

- Enwau swyddogion a theitl swyddi swyddogion Llywodraeth Cymru

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

**Gweithredu adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Data Personol**

Mae adran 40(2) ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b) yn darparu eithriad absoliwt os byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 ('DPA 2018') ac mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw adnabyddus neu adnabyddadwy. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod peth o'r wybodaeth yn cynnwys data personol. Yn benodol, mae'r wybodaeth yn cynnwys enwau a theitl swyddi swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai data personol (h.y. enwau a theitl swyddi swyddogion Llywodraeth Cymru) fod yn esempt o'r gofynion datgelu, gan y gallai'r wybodaeth yma gael ei ddefnyddio i adnabod yr unigolion hynny.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhydd Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag rhyddhau os byddai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR. Rydym yn ystyried mai'r egwyddor sydd mwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r un cyntaf. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddata personol fod wedi ei:

> *"processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject"*

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae'n nodi:

> *"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child".*

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae angen ystyried y prawf canlynol, mewn tair rhan:-

- **Y prawf buddiant dilys:** P'un a oes buddiant dilys ynghlwm â'r cais am wybodaeth;
- **Y prawf angenrheidrwydd:** P'un a yw datgelu'r wybodaeth/cadarnhau neu wrthod bod y wybodaeth yn cael ei chadw yn angenrheidiol i ddiwallu'r budd dilys dan sylw;
- **Y prawf cydbwyso:** A yw'r buddiannau uchod yn cymryd blaenoriaeth dros fuddiannau, hawliau a rhyddid sylfaenol y gwrthrych data.

Mae ein hystyriaeth o'r profion uchod wedi'i nodi isod:

**1. Buddiant dilys**
Mae'r wybodaeth yn cynnwys data personol, sef enwau a theitlau swyddi swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae buddiant dilys mewn deall cyd-destun cyfathrebu, ac at ba sefydliadau y cyfeiriwyd yr ohebiaeth ato.

**2. A oes angen datgelu?**
Rydym o'r farn, nad oes angen datgelu'r data personol er mwyn gallu deall cyd-destun yr ohebiaeth sy'n cael ei ddal gan y cais. Trwy ddisodli'r enwau (e.e. Swyddog Llywodraeth 1 ac ati), gallwn gynnal y cyd-destun y mae buddiant dilys yn bodoli iddo heb ddatgelu'r data personol. Byddai datgelu'r wybodaeth yn effeithio ar hawliau sylfaenol y gwrthrychau data o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

**3. Y cydbwysedd rhwng buddiannau dilys a buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y gwrthrych data**
Oherwydd bod golygu enwau a theitlau swyddi swyddogion yn rhoi cyd-destun, mae'n cwrdd â'r buddiant dilys ac felly nid oes angen datgelu'r data personol. Nid oes felly angen ystyried cydbwysedd buddiannau ymhellach, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ôl.